# PARTNERIAETH PENSIWN CYMRU
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

## DYDDIAD 13 MAWRTH 2024

## PWNC

**ADOLYGIAD COFRESTR RISG CHWARTER 1 2024**

**ARGYMHELLION / PENDERFYNIADAU ALLWEDDOL SYDD EU HANGEN:**

**Cymeradwyo'r diwygiadau i Gofrestr Risg PPC**

**RHESYMAU:**

Crëwyd a chymeradwywyd Cofrestr Risg Partneriaeth Pensiwn Cymru gan y CBLl ar 17 Gorffennaf 2020. Mae'r Gweithgor Swyddogion wedi cynnal adolygiad chwarterol o'r gofrestr, gan edrych ar hanner cyntaf yr adran Llywodraethu a Rheoleiddio, risgiau G.1 i G.7.


| Awdur yr Adroddiad: | Swydd: | Rhif Ffôn: 01267 224160 |
| --- | --- | --- |
| **Chris Moore** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol<br><br>**Cyngor Sir Gâr** | **E-bost:**<br>**CMoore@carmarthenshire.gov.uk** |

# CRYNODEB GWEITHREDOL
# CYDBWYLLGOR LLYWODRAETHU

## DYDDIAD 13 MAWRTH 2024

## ADOLYGIAD COFRESTR RISG CHWARTER 1 2024

### CRYNODEB BYR O BWRPAS YR ADRODDIAD

Mae PPC wedi creu Cofrestr Risg, sef y modd y mae risgiau yn cael eu dogfennu, eu rheoli a'u monitro. Pwrpas Cofrestr Risg y PPC yw:

- Amlinellu risgiau a ffactorau allweddol PPC a allai gyfyngu ar ei allu i gwrdd â'i amcanion
- Meintoli difrifoldeb a tebygolrwydd y risg sy'n wynebu PPC
- Rhoi crynodeb o strategaethau rheoli risg PPC
- Monitro arwyddocâd parhaus y risgiau hyn a'r gofyn am strategaethau lliniaru risg pellach

Cymeradwywyd y Gofrestr Risg wreiddiol gan y CBLl ar 17 Gorffennaf 2020. Y GS sy'n gyfrifol am gynnal a chadw Cofrestr Risg PPC ac adrodd yn ôl ar unrhyw newidiadau neu ddatblygiadau i'r CBLl yn chwarterol.

Yn ystod y chwarter diwethaf, cynhaliwyd adolygiad o'r risgiau o fewn adran Llywodraethu a Rheoleiddio y Gofrestr Risg, risgiau G.1 i G.7. Fel rhan o'r adolygiad, adolygwyd y risgiau canlynol hefyd:

- Risg G.12 - Gweithredwr PPC yn methu â chyflawni ei ymrwymiadau contractiol neu'n rhoi'r gorau i ddarparu gwasanaethau Gweithredwr oherwydd ymadael â'r farchnad neu gyfyngiadau rheoleiddio, ac
- Risg G.15 - Nid yw PPC yn barod ar gyfer deilliannau unrhyw ymgynghoriad neu newid rheoleiddiol.

Mae'r daflen sydd ynghlwm yn rhoi crynodeb o ddeilliannau adolygu pob risg.

Mae gan y GS Is-grŵp Risg PPC penodol i gymryd perchnogaeth o Gofrestr Risg PPC ac adolygiad chwarterol y ddogfen hon.  Bydd yr adolygiad nesaf yn cael ei gynnal yn Ch2 2024 a bydd yn canolbwyntio ar weddill y risgiau o fewn yr adran Llywodraethu a Rheoleiddio.

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD MANWL YNGHLWM?** | **OES** |

# GOBLYGIADAU

| Polisi, Trosedd ac Anhrefn, a Chydraddoldeb **OES** | Cyfreithiol **DIM** | Cyllid **DIM** | Materion Rheoli Risg **DIM** | Goblygiadau Staffio **DIM** | Bioamrywiaeth a Newid Hinsawdd **DIM** |
|---|---|---|---|---|---|
| **Polisi**<br>Mae'r Gofrestr Risg yn ddogfen ffurfiol ar gyfer Partneriaeth Pensiwn Cymru. | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |
| | | | | | |

# YMGYNGHORIADAU

Dylid cynnwys manylion unrhyw ymgynghoriadau a gynhaliwyd yma

**Adran 100D Deddf Llywodraeth Leol 1972 - Mynediad at Wybodaeth**
**Rhestr o Bapurau Cefndir a ddefnyddiwyd wrth baratoi'r adroddiad hwn:**
**MANYLIR AR Y RHAIN ISOD**

| Teitl y Ddogfen | Cyfeirnod Ffeil | Y mannau lle mae'r papurau ar gael i'r cyhoedd eu gweld/DOLEN GWEFAN |
|---|---|---|
| | | |